


New flexi doc,
you talk ... doc listens.



0–18 oed: arweiniad i bob meddyg

Gweithio gyda meddygon Gweithio dros gleifion

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Dyletswyddau meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rhaid bod modd i gleifion ymddiried eu bywydau a'u hiechyd gyda meddygon. Er mwyn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno, rhaid i chi ddangos parch tuag at fywyd dynol a sicrhau bod eich arfer yn bodloni'r safonau a ddisgwyllir gennych mewn pedwar maes.

Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

- Sicrhau eich bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf.
- Darparu gofal a gwaith meddyg o safon da.
 - Sicrhau eich bod yn diweddarau eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol.
 - Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd.

Diogelwch ac ansawdd

- Gweithredu yn ddi-oed os oes gennych reswm da dros gredu y gallech chi neu gydweithiwr fod yn rhoi cleifion mewn perygl.
- Diogelu a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.

Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm

- Trin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas.
 - Trin cleifion mewn ffordd gwrtais ac ystyrlon.
 - Parchu hawl cleifion i gyfrinachedd.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion.
 - Gwrando ar gleifion ac ymateb i'w pryderon a'u dewisiadau.
 - Rhoi'r wybodaeth y maent yn ei dymuno neu'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chael i gleifion, mewn ffordd y gallant ei deall.
 - Parchu hawl cleifion i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal gyda chi.
 - Cynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd.
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn ffyrdd sy'n diwallu buddiannau cleifion orau.

Cynnal ymddiriedaeth

- Bod yn onest a gweithredu mewn ffordd ddi-dwyll.
- Ni ddylech fyth wahaniaethu yn erbyn cleifion neu gydweithwyr mewn ffordd annheg.
- Ni ddylech fyth gymryd mantais ar ffydd eich cleifion ynndoch neu ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn.

Rydych yn atebol yn bersonol am eich gwaith proffesiynol fel meddyg ac mae'n rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd bob amser.

0–18 oed: arweiniad i bob meddyg

Daeth yr arweiniad hwn i rym ar 15 Hydref 2007.

Mae modd i chi weld y fersiwn diweddaraf o'r arweiniad hwn ar ein gwefan, sef www.gmc-uk.org/guidance.

Mae'n llyfryn *Arfer meddygol da* yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan bob meddyg sydd wedi cofrestru gyda CMC. Mae'r arweiniad sy'n dilyn, y mae ar gyfer pob meddyg, yn datblygu'r dyletswyddau a'r egwyddorion a nodir yn *Arfer meddygol da* ac yn ein harweiniad arall. Mae'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc o'u genedigaeth nes iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed (gweler atodiad 1).

Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn gyfarwydd gydag *Arfer meddygol da* a 0-18 oed, a dilyn yr arweiniad ynddynt. Arweiniad ydyw, nid cod statudol, felly bydd yn rhaid i chi ddefnyddio'ch barn er mwyn gweithredu'r egwyddorion yn y sefyllfaoedd amrywiol y byddwch yn eu hwynebu fel meddyg, os ydych yn meddu ar drwydded i wneud gwaith meddygol ac os ydych yn gweld cleifion yn rheolaidd neu beidio. Rhaid i chi fod yn barod i esbonio a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd.

Yn *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg*, defnyddir y termau 'rhaid i chi' a 'dylech' yn y ffyrdd canlynol:

- Defnyddir 'rhaid i chi' ar gyfer egwyddor neu ddyletswydd o'r pwys mwyaf
- Defnyddir 'dylech' pan fyddwn yn rhoi esboniad o'r ffordd y byddwch yn cyflawni'r ddyletswydd o'r pwys mwyaf
- Yn ogystal, defnyddir 'dylech' pan na fydd y ddyletswydd neu'r egwyddor yn berthnasol ym mhob sefyllfa neu amgylchiad, neu pan fo ffactorau y tu allan i'ch rheolaeth yn effeithio ar sut neu a ydych yn gallu cydymffurfio â'r arweiniad.

Bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn yr arweiniad hwn yn peryglu'ch cofrestrriad.

Cynnwys

	Paragraff(au)	Tudalen
Cyflwyniad	1–11	4
Asesu budd pennaf	12–13	7
Cyfathrebu	14–21	8
Gwneud penderfyniadau	22–41	11
Asesu'r galluedd i roi caniatâd	24–29	11
Plant a phobl ifanc nad ydynt yn meddu ar y galluedd i roi caniatâd	27–28	13
Pobl ifanc sy'n meddu ar y galluedd i roi caniatâd	29	14
Os bydd person ifanc yn gwrthod triniaeth	30–33	14
Gweithdrefnau a gyflawnir am resymau crefyddol, diwylliannol, cymdeithasol neu emosiynol yn bennaf	34–35	15
Ymchwil	36–40	16
Rhoi, trawsblannu, storio a defnyddio organau a meinwe	41	17
Egwyddorion cyfrinachedd	42–52	18
Rhannu gwybodaeth gyda chaniatâd y plentyn neu'r person ifanc	44–45	19
Rhannu gwybodaeth heb sicrhau caniatâd	46–52	19
Budd y cyhoedd	47–50	20
Datgeliadau pan na fydd plentyn yn meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd	51	22
Datgeliadau sy'n ofynnol yn unol â'r gyfraith	52	22
Yr hawl i blant, pobl ifanc a'u rhieni weld eu cofnodion meddygol	53–55	23

	Paragraff(au)	Tudalen
Amddiffyn plant	56–63	24
Gweithgarwch rhywiol	64–69	27
Atal cenhedlu, erthylu a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs)	70–72	29
Gwrthwynebiadau cydwybodol	72	30
Addasrwydd i weithio gyda phlant a phobl ifanc	73–75	31
Cwynion	76	32
Presgripsiynu meddyginiaethau	77	33
Atodiad 1		
Pwy yw plant a phobl ifanc?		34
Atodiad 2		
Rhieni a chyfrifoldeb rhieni		35
Ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad eraill		37
Deddfwriaeth a chyfraith achosion		39
Cysylltiadau defnyddiol		40
Ôl-nodion		42

Cyflwyniad

- 1 Mae'r arweiniad hwn ar gyfer pob meddyg, ond fe allai fod o ddefnydd i blant, pobl ifanc,* y sawl y mae ganddynt diddordeb yn eu gofal, ac unrhyw un arall hefyd sy'n dymuno gwybod pa arweiniad a roddir i feddygon.
- 2 Mae'r arweiniad ar gyfer meddygon, os ydynt yn gweld plant a phobl ifanc fel cleifion yn rheolaidd neu beidio. Yn ogystal, dylai meddygon fod yn ymwybodol o anghenion a lles plant a phobl ifanc pan fyddant yn gweld cleifion:
 - a sy'n rhieni neu'n ofalwyr*
 - b y mae plant neu bobl ifanc yn gofalu amdanynt, neu
 - c y gallent fod yn beryglus i blant neu bobl ifanc.
- 3 Mae *Arfer meddygol da* yn nodi bod yn rhaid i feddygon ddiogelu iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae lles yn cynnwys trin plant a phobl ifanc fel unigolion a pharchu eu safbwyntiau, yn ogystal ag ystyried eu lles corfforol ac emosïynol.
- 4 Wrth drin plant a phobl ifanc, rhaid i feddygon ystyried rhieni ac eraill sy'n agos atynt hefyd; ond rhaid iddynt roi'r pwys mwyaf ar eu claf.
- 5 Wrth drin oedolion sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, neu y maent yn peri risg i blant a phobl ifanc, rhaid i'r meddyg roi'r pwys mwyaf ar y claf sy'n oedolyn; ond mae'n rhaid i feddygon ystyried plant a phobl ifanc hefyd, a gweithredu er eu budd pennaf nhw.

* Gweler Atodiad 1 am yr hyn a olygwn pan fyddwn yn cyfeirio at blant a phobl ifanc ac Atodiad 2 am arweiniad ynghylch y sawl y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant a rolau rhieni a gofalwyr.

-
- 6** Gallai plant a phobl ifanc fod yn arbennig o agored i niwed ac mae angen eu diogelu rhag niwed; yn aml, byddant yn ei chael hi'n anodd manteisio ar wasanaethau neu amddiffyn eu hawliau; ac yn aml, byddant yn dibynnu ar eraill am eu lles. Efallai y bydd ganddynt anghenion cyfathrebu penodol ac efallai y bydd angen help arnynt wrth wneud penderfyniadau.
 - 7** Mae plant a phobl ifanc yn unigolion ac mae ganddynt hawliau y dylid eu parchu. Mae hyn yn golygu gwranddo arnynt ac ystyried yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud am bethau sy'n effeithio arnynt. Yn ogystal, mae'n golygu parchu eu penderfyniadau a'u cyfrinachedd.
 - 8** Dylai meddygon weithredu er budd pennaf plant a phobl ifanc bob amser. Hon ddylai fod yr egwyddor arweiniol ym mhob penderfyniad a allai effeithio arnynt. Ond nid yw nodi'r hyn sydd er eu budd pennaf yn dasg hawdd bob amser. Mae hyn yn arbennig o wir pan ystyrir triniaeth nad oes iddi fanteision a brofwyd i iechyd rhywun neu pan fo person ifanc cymwys yn gwrthod triniaeth y mae'n amlwg ei bod er lles meddygol iddynt. Gallai gwrthdaro godi rhwng ystyriaethau amddiffyn plant a chyfrinachedd hefyd, y mae'r ddau yn ystyriaethau hollbwysig i les plant a phobl ifanc.
 - 9** Gallai sicrhau atebion boddhaol i'r cwestiynau heriol hyn olygu ystyried nifer o faterion moesegol a chyfreithiol anodd. Diben yr arweiniad hwn yw helpu meddygon i sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau sy'n mynd yn groes i'w gilydd a gwneud penderfyniadau sy'n foesegol, sy'n gyfreithlon ac sydd er lles plant a phobl ifanc.

- 10** Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn gymhleth ac mae'n gwahaniaethu ar draws y DU. Bydd angen i feddygon y mae ganddynt gleifion sy'n blant ac sy'n bobl ifanc, feddu ar rywfaint o ddealltwriaeth o'r gyfraith sy'n berthnasol yn yr ardal y maent yn gweithio ynddi. Ni all y crynodebau a roddir o'r gyfraith yn yr arweiniad hwn gymryd lle y cyngor meddygol diweddaraf mewn achosion unigol.¹
- 11** Pan geir unrhyw amheuaeth ynghylch eu cyfrifoldebau, dylai meddygon geisio cyngor cydweithwyr profiadol, meddygon amddiffyn plant penodol neu ddynodedig, neu gyrff proffesiynol neu gyrff rheoleiddio.

Asesu budd pennaf

- 12** Bydd asesiad o'r hyn sydd er budd pennaf plant a phobl ifanc yn cynnwys y wybodaeth glinigol mewn achos penodol. Yn ogystal, dylech ystyried:
- a** safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc, i'r graddau y gallant eu mynegi, gan gynnwys unrhyw ddymuniadau a fynegwyd yn flaenrol
 - b** safbwyntiau rhieni
 - c** safbwyntiau eraill sy'n agos i'r plentyn neu'r person ifanc
 - d** credoau diwylliannol, credoau crefyddol neu gredoau eraill y plentyn neu'r rhieni²
 - e** safbwyntiau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu gofal i'r plentyn neu'r person ifanc, ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill y mae ganddynt ddiddordeb yn eu lles
 - f** pa ddewis, os ceir mwy nag un, a fydd yn cyfyngu leiaf ar ddewisiadau'r plentyn neu'r person ifanc yn y dyfodol.
- 13** Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Bydd y pwys y byddwch yn ei roi ar bob pwynt yn dibynnu ar yr amgylchiadau, a dylech ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Ni ddylech ffurfio unrhyw ragdybiaethau nad oes modd eu cyfiawnhau ynghylch budd pennaf plentyn neu berson ifanc ar sail ffactorau amherthnasol neu wahaniaethol, megis eu hymddygiad, eu hymddangosiad neu eu hanabledd.

Cyfathrebu

- 14** Mae cyfathrebu effeithiol rhwng meddygon a phlant a phobl ifanc yn hanfodol er mwyn darparu gofal da. Dylech ddarganfod yr hyn y mae plant, pobl ifanc a'u rhieni yn dymuno'i wybod a'r hyn y mae angen iddynt ei wybod, pa faterion sy'n bwysig iddynt, a pha safbwyntiau neu ofnau sydd ganddynt ynghylch eu hiechyd neu eu triniaeth. Yn arbennig, dylech:
- a** gynnwys plant a phobl ifanc mewn trafodaethau ynghylch eu gofal
 - b** bod yn onest ac yn agored gyda nhw a'u rhieni, gan barchu eu cyfrinachedd ar yr un pryd
 - c** gwranddo ar eu safbwyntiau ynghylch eu hiechyd, a'u parchu, ac ymateb i'w pryderon a'u dewisiadau
 - d** esbonio pethau gan ddefnyddio iaith neu ffurfiau cyfathrebu eraill y gallant eu deall
 - e** ystyried sut yr ydych chi a sut y maen nhw yn defnyddio cyfathrebu nad yw'n gyfathrebu llafar, a'r amgylchedd lle y byddwch yn cyfarfod gyda nhw
 - f** rhoi cyfleoedd iddynt ofyn cwestiynau ac ateb y rhain yn onest a hyd eithaf eich gallu
 - g** gwneud popeth y gallwch i sicrhau bod modd cael trafodaeth agored a gonest, gan ystyried bod cyfranogiad rhieni neu unigolion eraill yn gallu helpu hyn neu rwystro hyn
 - h** rhoi'r un amser a pharch iddynt ag y byddech yn ei roi i gleifion sy'n oedolion.
- 15** Dylech egluro eich bod ar gael i weld plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain os ydynt yn dymuno hynny. Dylech osgoi rhoi'r argraff (yn uniongyrchol, trwy staff y dderbynfa neu mewn unrhyw ffordd arall) na allant fanteisio ar wasanaethau pan na fyddant yn nghwmni rhiant. Dylech ystyried effaith y gall presenoldeb gwarchodwr³ ei gael, yn ofalus. Gall eu presenoldeb atal pobl ifanc rhag bod yn agored a gofyn am help.

-
- 16** Dylech ystyried safbwyntiau plant a phobl ifanc o ddifrif ac ni ddylech ddiystyru neu ymddangos fel pe baech yn diystyru eu pryderon neu eu cyfraniadau. Gall plant a phobl ifanc anabl yn arbennig, deimlo'u bod dan anfantais yn hyn o beth.
- 17** Fel arfer, bydd plant a phobl ifanc yn dymuno cael gwybod am eu salwch, neu bydd angen iddynt gael gwybod am eu salwch a'r hyn sy'n debygol o ddigwydd iddynt yn y dyfodol. Dylech ddarparu gwybodaeth sy'n hawdd i'w deall ac sy'n briodol i'w hoedran a'u haeddfedrwydd ynghylch:
- a** eu cyflwr
 - b** diben ymchwiliadau a thriniaethau yr ydych yn eu cynnig a'r hyn y byddant yn ei olygu, gan gynnwys poen, anesthetig ac aros yn yr ysbyty
 - c** y siawns y bydd gwahanol ddewisiadau o ran triniaethau yn llwyddo, gan gynnwys peidio cael triniaeth, a risgiau gweithgarwch o'r fath
 - d** pwy fydd yn bennaf gyfrifol am eu gofal ac yn ymwneud ag ef
 - e** eu hawl i newid eu meddwl neu i ofyn am ail farn.
- 18** Ni ddylech orlethu plant a phobl ifanc neu eu rhieni, a dylech roi gwybodaeth iddynt ar adeg ac ar gyflymder priodol, a sicrhau eu bod yn deall pwyntiau allweddol.
- 19** Dylech siarad yn uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc sy'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau am eu gofal, a gwrando arnynt. Mae'n gas gan bobl ifanc sy'n gallu deall yr hyn sy'n cael ei ddweud ac sy'n gallu siarad drostynt eu hunain, weld pobl yn siarad amdanynt pan fyddant yn bresennol. Ond efallai na fydd plant iau yn deall yr hyn y mae eu salwch neu'r driniaeth arfaethedig ar eu cyfer yn debygol o'i olygu, hyd yn oed pan gaiff ei esbonio iddynt mewn ffordd syml.

- 20** Dim ond dan yr amgylchiadau canlynol y dylech beidio cyfleu'r math o wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraff 17 i blant neu bobl ifanc:
- a** os byddai'n achosi niwed difrifol iddynt (ac nid peri gofid iddynt yn unig, neu'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn gwrthod y driniaeth)
 - b** byddant yn gofyn i chi beidio, oherwydd byddai'n well ganddynt i rywun arall wneud penderfyniadau ar eu rhan.
- 21** Mae gennych yr un ddyletswydd o ran cyfrinachedd gyda phlant a phobl ifanc ag y mae gennych gydag oedolion. Ond yn aml, bydd rhieni yn dymuno cael, a bydd angen iddynt gael, gwybodaeth am ofal eu plentyn er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau neu ddarparu gofal a chymorth. Fel arfer, bydd plant a phobl ifanc yn fodlon bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'u rhieni. Yn aml, bydd y broses hon o rannu gwybodaeth er budd pennaf plant a phobl ifanc, yn enwedig os byddai eu hiechyd yn elwa o gael gofal arbennig neu driniaeth barhaus, megis diet arbennig neu feddyginiaeth reolaidd. Fel arfer, y rhieni yw'r rhai gorau i benderfynu ynghylch yr hyn sydd er budd pennaf eu plant a dylent wneud penderfyniadau pwysig nes bydd eu plant yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Dylech rannu gwybodaeth berthnasol gyda rhieni yn unol â'r gyfraith a'r arweiniad a roddir ym mharagraffau 27, 28 a 42 i 55.

Gwneud penderfyniadau

- 22** Gallwch roi triniaeth feddygol i blentyn neu berson ifanc gyda’u caniatâd os ydynt yn gymwys i’w roi, neu gyda chaniatâd rhiant neu’r llys.⁴ Gallwch roi triniaeth frys heb ganiatâd er mwyn achub bywyd plentyn neu berson ifanc, neu er mwyn atal eu hiechyd rhag gwaethygu yn ddifrifol.
- 23** Dylech gynnwys plant a phobl ifanc gymaint ag y bo modd mewn penderfyniadau sy’n ymwneud â’u gofal, hyd yn oed pan na fyddant yn gallu gwneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain.

Asesu’r galluedd i roi caniatâd

- 24** Rhaid eich bod yn gallu penderfynu a yw person ifanc yn gallu deall natur, diben a chanlyniadau posibl ymchwiliadau neu driniaethau yr ydych yn eu cynnig, yn ogystal â chanlyniadau peidio cael triniaeth. Dim ond os byddant yn gallu deall, cadw, defnyddio a phwyso’r wybodaeth hon, a chyfleu eu penderfyniad i eraill, y byddant yn gallu rhoi eu caniatâd i’r ymchwiliad neu’r driniaeth honno.⁵ Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi cael ei darparu a’i thrafod yn drylwyr cyn penderfynu a yw plentyn neu berson ifanc yn meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd.

- 25** Mae'r galluedd i roi caniatâd yn dibynnu'n fwy ar allu person ifanc i ddeall a phwyso'r dewisiadau nag ar eu hoedran. Wrth asesu galluedd person ifanc i roi caniatâd, dylech gofio:
- a** y gellir cymryd bod gan berson ifanc y galluedd i roi caniatâd pan fyddant yn 16 oed (gweler paragraffau 30 i 33)
 - b** y gallai person ifanc dan 16 oed fod yn meddu ar y galluedd i roi caniatâd, gan ddibynnu ar eu haeddfedrwydd a'u gallu i ddeall yr hyn y bydd y penderfyniad yn ei olygu.⁶
- 26** Mae'n bwysig eich bod yn asesu aeddfedrwydd a dealltwriaeth ar sail unigol a chan ystyried cymhlethdod a phwysigrwydd y penderfyniad a fydd yn cael ei wneud. Dylech gofio na fydd gan berson ifanc sy'n meddu ar y galluedd i roi caniatâd i driniaeth syml, sy'n gymharol rhydd o risg, y galluedd i roi eu caniatâd i driniaeth gymhleth sy'n cynnwys risgiau uchel neu ganlyniadau difrifol o reidrwydd.* Gall eu datblygiad corfforol ac emosiynol a newidiadau i'w hiechyd a'u triniaeth effeithio ar y galluedd i roi caniatâd hefyd.

* Gweler paragraffau 70–71 am arweiniad ynghylch cyngor a thriniaeth ar gyfer atal cenhedlu, erthylu a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

Plant a phobl ifanc nad ydynt yn meddu ar y galluedd i roi caniatâd

- 27** Os na fydd plentyn yn meddu ar y galluedd i roi caniatâd, dylech ofyn am ganiatâd eu rhiant. Fel arfer, bydd yn ddigonol cael caniatâd gan un rhiant. Os na fydd rhieni yn gallu cytuno ac os na fydd modd datrys unrhyw anghydfod mewn ffordd anffurfiol, dylech geisio cyngor cyfreithiol ynghylch a ddylech wneud cais i'r llys.⁷
- 28** Mae'r fframwaith cyfreithiol ynghylch trin pobl ifanc sy'n 16 ac sy'n 17 oed, nad ydynt yn meddu ar y galluedd i roi caniatâd, yn gwahaniaethu ar draws y DU:
- a** Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gall rhieni roi caniatâd i ymchwiliadau a thriniaeth y maent er budd pennaf y person ifanc
 - b** Yng Nghymru a Lloegr, gellir darparu triniaeth sydd er budd pennaf y person ifanc heb sicrhau caniatâd rhieni hefyd, er y gallai safbwyntiau rhieni fod yn bwysig wrth asesu budd pennaf y person ifanc (gweler paragraffau 12 ac 13)⁸
 - c** Yng Ngogledd Iwerddon, gellir darparu triniaeth sydd er budd pennaf y person ifanc os na fydd modd cysylltu â rhiant, er y dylech geisio cyngor cyfreithiol ynghylch gwneud cais am gymeradwyaeth llys ar gyfer ymyriadau sylweddol (ac eithrio ymyriadau brys)
 - d** Yn yr Alban, caiff pobl ifanc sy'n 16 ac sy'n 17 oed nad ydynt yn meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd, eu trin fel oedolion nad ydynt yn meddu ar alluedd, a gellir rhoi triniaeth i ddiogelu neu i hyrwyddo eu hiechyd.⁹

Pobl ifanc sy'n meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd

29 Dylech annog pobl ifanc i gynnwys eu rhieni yn y broses o wneud penderfyniadau pwysig, ond fel arfer, dylech gydymffurfio gydag unrhyw benderfyniad y mae ganddynt y galluedd i'w wneud ar eu pen eu hunain (gweler paragraffau 30 i 33 a pharagraffau 46 i 52). Yn ogystal, dylech ystyried cynnwys aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol, eiriolwr annibynnol neu feddyg penodol neu ddynodedig dros amddiffyn plant os byddai eu cyfranogiad yn helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau.

Os bydd person ifanc yn gwrthod triniaeth

30 Mae parchu safbwyntiau pobl ifanc yn bwysig wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal. Os byddant yn gwrthod triniaeth, yn enwedig triniaeth a allai achub eu bywyd neu atal eu hiechyd rhag gwaethygu mewn ffordd ddifrifol, bydd hon yn her y bydd angen i chi ei hystyried yn ofalus.

31 Ni all rhieni ddiystyru caniatâd cymwys person ifanc i gael triniaeth yr ydych yn ei hystyried yn driniaeth sydd er eu budd pennaf. Ond gallwch ddibynnu ar ganiatâd rhieni pan na fydd plentyn meddu ar y galluedd i roi caniatâd. Yn yr Alban, ni all rhieni awdurdodi triniaeth a wrthodwyd gan berson ifanc cymwys.¹⁰ Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r gyfraith sy'n ymwneud â rhieni yn diystyru gwrthodiad cymwys person ifanc yn gymhleth.¹¹ Dylech geisio cyngor cyfreithiol os ydych o'r farn bod triniaeth er budd pennaf person ifanc cymwys sy'n ei gwrthod.¹²

-
- 32** Rhaid i chi bwysu'r niwed i hawliau plant a phobl ifanc o ddiystyru eu penderfyniad i wrthod triniaeth, yn erbyn manteision y driniaeth, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er eu budd pennaf.¹³ Yn yr amgylchiadau hyn, dylech ystyried cynnwys aelodau eraill o'r tim^ amlddisgyblaethol, eiriolwr annibynnol, neu feddyg penodol neu ddynodedig dros amddiffyn plant. Gallai cyngor cyfreithiol fod o gymorth wrth benderfynu a ddylech wneud cais i'r llys i ddatrys anghydfodau ynghylch lles nad oes modd eu datrys mewn ffordd anffurfiol.
- 33** Yn ogystal, dylech ystyried cynnwys yr un cydweithwyr hyn cyn ceisio cyngor cyfreithiol os bydd rhieni yn gwrthod triniaeth y mae'n amlwg ei bod er budd pennaf plentyn neu berson ifanc nad ydynt yn meddu ar alluedd, neu os bydd person ifanc sy'n meddu ar alluedd, a'u rhieni, yn gwrthod triniaeth o'r fath.¹⁴

Am arweiniad pellach ynghylch y materion hyn, trowch at arweiniad CMC ynghylch caniatâd a thriniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes.

Gweithdrefnau a gyflawnir am resymau crefyddol, diwylliannol, cymdeithasol neu emosiynol yn bennaf

- 34** Mae CMC a'r gyfraith yn caniatâ'u i feddygon gyflawni gweithdrefnau nad ydynt yn cynnig manteision therapiwtig amlwg neu fanteision therapiwtig ar unwaith i blant neu bobl ifanc, ar yr amod eu bod er eu budd pennaf (gweler paragraffau 12 ac 13) a'u bod yn cael eu cyflawni gyda'u caniatâd (gweler paragraff 27).

35 Er mwyn asesu eu budd pennaf, dylech ystyried credoau a gwerthoedd crefyddol a diwylliannol y plentyn neu'r person ifanc, a'u rhieni, yn ogystal ag unrhyw fanteision cymdeithasol, seicolegol ac emosïynol. Gallai hyn fod yn berthnasol wrth enwaedu plant gwrywaidd am resymau crefyddol neu ddiwylliannol¹⁵, neu gywiro nodweddion corfforol nad ydynt yn peryglu bywyd neu iechyd y plentyn, mewn ffordd lawfeddygol.

Ymchwil

- 36** Gall ymchwil¹⁶ sy'n cynnwys plant a phobl ifanc fod o fudd i bob plentyn; ond fe allent fod yn agored i niwed oherwydd na allant gydnabod yr hyn sydd er eu budd pennaf, mynegi eu hanghenion neu amddiffyn eu hawliau bob amser.
- 37** Dim ond pan na fydd modd i oedolion ddarparu'r un manteision y dylid cynnwys plant neu bobl ifanc mewn gwaith ymchwil. Gallant ymwneud â gwaith ymchwil sy'n cynnig:
- a** manteision posibl i blant neu bobl ifanc yn gyffredinol, ar yr amod nad yw'r gwaith ymchwil yn mynd yn groes i'w budd pennaf neu os mai dim ond risg isel neu'r risg lleiaf ag y bodd o niwed y mae'n ei olygu (byddai hyn yn waith ymchwil sy'n cynnwys, er enghraifft, gofyn cwestiynau neu gymryd samplau gwaed, asesu'r risg gan ddibynnu ar safbwynt y plentyn neu'r person ifanc), neu
 - b** fanteision therapiwtig posibl iddynt sy'n gorbwyso unrhyw risgiau y gellir eu rhagweld, y dylid eu cadw mor fach ag y bo modd.

-
- 38** Fel arfer, ni ddylai plant a phobl ifanc ymwneud â gwaith ymchwil os byddant yn gwrthwynebu neu os yw'n ymddangos eu bod yn gwrthwynebu mewn gair neu weithred, hyd yn oes os bydd eu rhieni yn rhoi eu caniatâd. Os byddant yn gallu rhoi eu caniatâd eu hunain, dylech ystyried cynnwys eu rhieni o hyd, gan ddibynnu ar natur y gwaith ymchwil.¹⁷
- 39** Ni ddylech roi pwysau ar blant, pobl ifanc na'u rhieni i roi caniatâd i waith ymchwil y disgwylir iddo sicrhau manteision therapiwtig, manteision ariannol neu unrhyw fanteision eraill.
- 40** Cyn cynnwys plant neu bobl ifanc mewn gwaith ymchwil, dylech geisio cyngor a sicrhau'r gymeradwyaeth angenrheidiol gan bwyllgor moeseg ymchwil perthnasol, y Cyngor Ymchwil Feddygol¹⁸ neu goleg brenhinol meddygol.¹⁹

Am wybodaeth bellach, trowch at arweiniad CMC ynghylch gwaith ymchwil.

Rhoi, trawsblannu, storio a defnyddio organau a meinwe

- 41** Pasiwyd *Deddf Meinwe Dynol 2004* a *Human Tissue (Scotland) Act 2006* yn dilyn ymchwiliadau ynghylch y broses o storio organau a meinwe plant heb sicrhau'r caniatâd cywir. Mae'r Deddfau yn sicrhau bod caniatâd yn ganolog i'r broses gyfreithlon o storio a defnyddio organau a meinwe plant a phobl ifanc, a chymryd deunydd o'r fath ar ôl marwolaeth. Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn rheoleiddio ac yn cyhoeddi codau ymarfer ynghylch gweithgareddau y mae'r Ddeddf yn ymwneud â nhw yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae gweinidogion yr Alban yn meddu ar y pwerau hyn yn yr Alban.

Egwyddorion

- 42** Mae parchu cyfrinachedd cleifion yn rhan hanfodol o ofal da; mae hyn yn berthnasol pan fo'r claf yn blentyn neu'n berson ifanc, yn ogystal â phan fo'r claf yn oedolyn. Heb yr ymddiriedaeth sy'n cael ei sicrhau trwy gyfrwng cyfrinachedd, efallai na fydd plant a phobl ifanc yn ceisio cyngor a gofal meddygol, neu efallai na fyddant yn eich hysbysu o'r holl ffeithiau sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gofal da iddynt.
- 43** Mae'r un dyletswyddau cyfrinachedd yn berthnasol wrth ddefnyddio, rhannu neu ddatgelu gwybodaeth ynghylch plant a phobl ifanc ag y maent ynghylch oedolion. Dylech:
- a** ddatgelu gwybodaeth sy'n nodi manylion y claf os bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni diben y datgelu yn unig – ym mhob achos arall, dylech sicrhau bod y wybodaeth yn ddiennw²⁰ cyn ei datgelu
 - b** hysbysu'r claf* ynghylch defnydd posibl a wneir o'u gwybodaeth, gan gynnwys sut y gellid ei defnyddio i ddarparu eu gofal ac ar gyfer archwiliad clinigol
 - c** gofyn am ganiatâd y claf* cyn datgelu gwybodaeth a allai ddatgelu eu manylion, os bydd angen y wybodaeth at unrhyw ddiben arall, ac eithrio yn yr amgylchiadau arbennig a ddisgrifir yn yr arweiniad hwn
 - d** gwneud cyn lleied o ddatgeliadau ag y bydd angen eu gwneud.

Am wybodaeth bellach, trowch at arweiniad CMC ynghylch cyfrinachedd.²¹

* neu, pan fo hynny'n briodol, y rhai y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y claf

Rhannu gwybodaeth gyda chaniatâd y plentyn neu'r person ifanc

- 44** Gall rhannu gwybodaeth gyda'r bobl gywir helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed, gan sicrhau eu bod yn cael yr help y maent ei angen. Yn ogystal, gall helpu wrth leihau nifer yr adegau y bydd gwahanol weithwyr proffesiynol yn gofyn yr un cwestiynau iddynt. Trwy ofyn am eu caniatâd i rannu gwybodaeth berthnasol, rydych yn dangos parch tuag atynt ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal.
- 45** Os bydd plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, dylech esbonio pam bod angen i chi rannu gwybodaeth, a gofyn am eu caniatâd. Fel arfer, byddant yn fodlon i chi siarad gyda'u rhieni ac eraill sy'n ymwneud â'u gofal neu eu triniaeth.

Rhannu gwybodaeth heb sicrhau caniatâd

- 46** Os na fydd plentyn neu berson ifanc yn cytuno datgelu eu gwybodaeth, ceir amgylchiadau o hyd lle y dylech ddatgelu gwybodaeth:
- a** pan fydd budd o'r pwys mwyaf i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth
 - b** pan fyddwch yn barnu bod y datgeliad er budd pennaf plentyn neu berson ifanc nad ydynt yn meddu ar yr aeddfedrwydd neu'r ddealltwriaeth i wneud penderfyniad ynghylch datgelu
 - c** pan fo'r gyfraith yn mynnu y dylid datgelu.

Budd y cyhoedd

- 47** Gallwch ddatgelu gwybodaeth sy'n nodi manylion y plentyn neu'r person ifanc heb sicrhau eu caniatâd, os bydd hyn er budd y cyhoedd. Bydd datgeliad er budd y cyhoedd os bydd y manteision sy'n debygol o gael eu sicrhau o ddatgelu gwybodaeth yn gorbwysu lles y plentyn neu'r person ifanc o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, a budd cymdeithas wrth gynnal ymddiriedaeth rhwng meddygon a chleifion. Rhaid i chi ffurfio'r farn hon fesul achos unigol, trwy bwysu a mesur y budd amrywiol dan sylw.
- 48** Wrth ystyried a fyddai modd cyfiawnhau datgelu, dylech:
- a** ddweud wrth y plentyn neu'r person ifanc am yr hyn yr ydych yn bwriadu ei ddatgelu a pham, oni bai y byddai hynny yn tansilio'r diben neu'n golygu bod y plentyn neu'r person ifanc mewn mwy o berygl o ddiodef niwed
 - b** gofyn am ganiatâd i'r datgeliad, os ydych yn barnu bod y person ifanc yn gymwys i wneud y penderfyniad, oni bai nad yw'n ymarferol gwneud hynny.

-
- 49** Os bydd plentyn neu berson ifanc yn gwrthod rhoi eu caniatâd neu os nad yw'n ymarferol gofyn am eu caniatâd, dylech ystyried y manteision a'r niwed posibl a allai godi o ddatgelu. Dylech ystyried unrhyw safbwyntiau a fynegir gan y plentyn neu'r person ifanc ynghylch pam na ddylech ddatgelu'r wybodaeth. Ond dylech ddatgelu gwybodaeth os bydd angen gwneud hyn er mwyn diogelu'r plentyn neu'r person ifanc, neu rywun arall, rhag risg marwolaeth neu niwed difrifol. Gallai achosion o'r fath godi, er enghraifft:
- a** os bydd plentyn neu berson ifanc mewn perygl o gael eu hesgeuluso neu eu cam-drin yn rhywiol, yn gorfforol neu'n emosïynol (gweler paragraffau 56 i 63)
 - b** os byddai'r wybodaeth yn helpu i atal, darganfod neu erlyn rhywun am gyflawni trosedd ddifrifol, trosedd yn erbyn y person fel arfer²²
 - c** os bydd plentyn neu berson ifanc yn gysylltiedig ag ymddygiad a allai eu rhoi nhw neu eraill mewn perygl o ddioddef niwed difrifol, megis dibyniaeth ddifrifol, hunan-niwed neu ddwyn ceir.
- 50** Os ydych o'r farn bod modd cyfiawnhau datgelu, dylech ddatgelu'r wybodaeth yn ddi-oed i berson neu awdurdod priodol, gan gofnodi'ch trafodaethau a'ch rhesymau. Os byddwch o'r farn nad oes modd cyfiawnhau datgelu, dylech gofnodi'ch rhesymau dros beidio datgelu.

Datgeliadau pan na fydd plentyn yn meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd

51 Fel arfer, bydd rhieni neu oedolion eraill sy'n ymwneud â'u gofal yn mynychu gyda phlant, a bydd modd i chi weld yn ôl eu hymddygiad fel arfer os bydd plentyn yn cytuno i'r weithred o rannu gwybodaeth neu beidio. O bryd i'w gilydd, bydd plant nad ydynt yn meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd, yn rhannu gwybodaeth gyda chi yn unol â'r ddealltwriaeth na ddylid hysbysu eu rhieni. Fel arfer, dylech geisio perswadio'r plentyn i gynnwys rhiant mewn amgylchiadau o'r fath. Os byddant yn gwrthod ac os byddwch o'r farn ei bod er budd pennaf y plentyn i chi rannu'r wybodaeth (er enghraifft, er mwyn galluogi rhiant i wneud penderfyniad pwysig neu er mwyn darparu gofal cywir i'r plentyn), gallwch ddatgelu'r wybodaeth i rieni neu awdurdodau priodol. Dylech gofnodi'ch trafodaethau a'ch rhesymau dros rannu'r wybodaeth.

Datgeliadau sy'n ofynnol yn unol â'r gyfraith

52 Rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth sy'n ofynnol yn unol â'r gyfraith. Yn ogystal, rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth pan fyddwch yn cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan lys.²³

Yr hawl i blant, pobl ifanc a'u rhieni weld eu cofnodion meddygol

- 53** Mae gan bobl ifanc sy'n meddu ar alluedd yr hawl gyfreithiol i weld eu cofnodion iechyd eu hunain, ac maent yn gallu caniatáu i eraill, gan gynnwys eu rhieni, i'w gweld neu i'w hatal rhag eu gweld.* Yn yr Alban, mae'n cael ei dybio gan y gyfraith bod unrhyw un dros 12 oed yn meddu ar alluedd o'r fath. Wrth gwrs, gallai plentyn sicrhau galluedd yn gynharach neu'n hwyrach na hyn. Mewn unrhyw achos, dylech ganiatáu i blant weld eu cofnodion iechyd eu hunain fel arfer. Ond ni ddylid caniatáu iddynt weld gwybodaeth a fyddai'n achosi niwed difrifol iddynt neu unrhyw wybodaeth am berson arall heb sicrhau caniatâd y person arall.
- 54** Dylech ganiatáu i rieni weld cofnodion meddygol eu plentyn os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn rhoi eu caniatâd, neu os na fyddant yn meddu ar alluedd, ac os nad yw'n groes i fudd pennaf y plentyn. Os bydd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth a roddwyd gan y plentyn neu'r person ifanc yn gyfrinachol, ni ddylech ddatgelu'r wybodaeth heb sicrhau eu caniatâd fel arfer.²⁴
- 55** Nid yw ysgaru neu wahanu yn effeithio ar gyfrifoldeb rhiant a dylech roi'r cyfle rhesymol i'r ddau riant weld cofnodion iechyd eu plentyn.

* Ceir amgylchiadau pan ellir gwneud datgeliadau i rieni ac eraill heb sicrhau caniatâd (gweler paragraffau 46-52).

Amddiffyn plant*

- 56** Mae meddygon yn cyflawni rôl allweddol wrth ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Efallai y byddwch yn cael eich hysbysu o bethau neu'n sylwi ar bethau na fydd athrawon a gweithwyr cymdeithasol, er enghraifft, yn cael eu hysbysu ohonynt neu'n sylwi arnynt. Efallai y byddwch yn gallu troi at wybodaeth gyfrinachol sy'n golygu bod gennych bryder ynghylch diogelwch neu les plant.
- 57** Gall adnabod risgiau yn gynnar helpu plant a phobl ifanc i sicrhau'r gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i fod yn iach, yn ddiogel ac yn hapus, ac i wireddu eu potensial.
- 58** Os ydych yn gweithio gyda phlant neu bobl ifanc, dylech feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i adnabod arwyddion cam-drin ac esgeuluso.²⁵ Dylech fod yn ymwybodol o'r arfer o ddefnyddio fframweithiau i asesu anghenion plant a phobl ifanc, gwaith y Pwyllgorau Amddiffyn Plant a'r Byrddau Lleol Diogelu Plant, a pholisïau, gweithdrefnau a sefydliadau sy'n gweithio i ddiogelu plant a hyrwyddo'u lles.
- 59** Efallai na fydd plant, pobl ifanc a rhieni yn dymuno i chi ddatgelu gwybodaeth amdanynt os byddant o'r farn y bydd help yn cael ei wrthod ar eu cyfer, y byddant yn cael eu beio neu os byddant yn teimlo cywilydd o ganlyniad. Efallai y byddant wedi cael profiadau gwael neu efallai y byddant yn ofni cael cyswllt gyda'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylech eu helpu i ddeall pwysigrwydd a manteision rhannu gwybodaeth. Ond ni ddylech oedi wrth rannu gwybodaeth berthnasol gydag awdurdod neu berson priodol os byddai oedi yn cynyddu'r risg i'r plentyn neu'r person ifanc neu i blant a phobl ifanc eraill.

* I gael cyngor manwl am y mater hwn, darllenwch ein harweiniad Diogelu plant a phobl ifanc: cyfrifoldebau pob meddyg trwy droi at www.gmc-uk.org/child-protection.

-
- 60** Mae cyfrinachedd yn bwysig a dylai'r weithred o rannu gwybodaeth fod yn gymesur â risg niwed. Gallwch rannu rhywfaint o wybodaeth gyfyngedig, ar ôl sicrhau caniatâd os oes modd, er mwyn penderfynu a oes risg a fyddai'n cyfiawnhau datgeliadau pellach. Efallai y bydd risg yn dod i'r amlwg pan fydd nifer o bobl yn rhannu mân bryderon sydd ganddynt. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth ynghylch rhannu gwybodaeth, dylech geisio cyngor gan gydweithiwr profiadol, meddyg penodol neu ddynodedig dros amddiffyn plant, neu Warcheidwad Caldicott. Gallwch geisio cyngor gan gorff proffesiynol, sefydliad amddiffyn neu CMC hefyd. Bydd modd i chi gyfiawnhau mynegi pryder, hyd yn oes os gwelir nad oes sail iddo yn nes ymlaen, os ydych wedi gwneud hynny mewn ffordd onest, yn ddi-oed ac ar sail cred resymol, a thrwy gyfrwng y sianelau priodol.
- 61** Rhaid i chi roi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch plant a phobl ifanc. Rhaid i chi hysbysu person neu awdurdod priodol ar unwaith o unrhyw bryder rhesymol sydd gennych bod plant neu bobl ifanc mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, pan fo hynny er lles plentyn neu'n angenrheidiol er mwyn diogelu plant neu bobl ifanc eraill.²⁶ Rhaid eich bod yn gallu cyfiawnhau penderfyniad i beidio rhannu pryder o'r fath ar ôl cael cyngor gan feddyg penodol neu ddynodedig dros amddiffyn plant neu gydweithiwr profiadol, neu gorff proffesiynol neu amddiffyn. Dylech gofnodi'ch pryderon, eich trafodaethau a'ch rhesymau dros beidio rhannu gwybodaeth yn yr amgylchiadau hyn.

- 62** Dylech gyfranogi'n llawn mewn gweithdrefnau amddiffyn plant, mynychu cyfarfodydd pan fo hynny'n ymarferol a chydweithredu gyda cheisiadau am wybodaeth ynghylch plant yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae hyn yn cynnwys Adolygiadau Achos Difrifol sy'n cael eu sefydlu i nodi pam bod plentyn wedi cael niwed difrifol, er mwyn dysgu gwersi o gamgymeriadau ac er mwyn gwella systemau a gwasanaethau i blant a'u teuluoedd. Pan mai diben cyffredinol adolygiad yw diogelu plant neu bobl ifanc eraill rhag risg niwed difrifol, dylech rannu gwybodaeth berthnasol, hyd yn oed pan na fydd plentyn neu berson ifanc neu eu rhieni yn rhoi eu caniatâd, neu pan na fydd modd gofyn am eu caniatâd. Rhaid eich bod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniad i beidio rhannu gwybodaeth mewn achosion o'r fath.
- 63** Dylech sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau eglur ac y mae pobl yn eu deall yn dda, yn bodoli ynghylch rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau yr ydych yn cydweithio'n agos gyda nhw neu'n aml gyda nhw. Dylech feddu ar ddealltwriaeth o rolau, polisïau ac arferion asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae hyn yn cynnwys deall yr amgylchiadau y maent yn barnu bod modd cyfiawnhau datgelu ar eu cyfer. Mae gan athrawon, gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu, timau troseddau ieuenctid ac eraill wahanol berthnasoedd gyda phlant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae ganddynt wahanol ddiwylliannau, polisïau ac arweiniad ynghylch rhannu gwybodaeth. Dylech ddeall a pharchu'r gwahaniaethau hyn ond dylech gofio'r cyfrifoldebau arbennig sydd gennych chi fel meddyg a phwysigrwydd ymddiriedaeth yn eich perthynas gyda'ch cleifion.

Gweithgarwch rhywiol

- 64** Mae gwasanaeth iechyd rhywiol cyfrinachol yn hanfodol er lles plant a phobl ifanc. Pryder ynghylch cyfrinachedd yw'r ystyriaeth fwyaf sy'n atal pobl ifanc rhag gofyn am gyngor ynghylch iechyd rhywiol.²⁷ Yn ei dro, mae hyn yn peryglu iechyd pobl ifanc ac mae'n peryglu iechyd y gymuned, yn enwedig pobl ifanc eraill.
- 65** Gallwch ddatgelu gwybodaeth berthnasol pan fo hynny er budd y cyhoedd (gweler paragraffau 47 i 50). Os bydd plentyn neu berson ifanc yn ymwneud â gweithgarwch rhywiol sy'n cyfateb a cham-drin neu sy'n peri niwed difrifol, rhaid i chi eu diogelu trwy rannu gwybodaeth berthnasol gyda phobl neu asiantaethau priodol megis yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, yn gyflym ac mewn ffordd broffesiynol.
- 66** Dylech ystyried pob achos yn ôl ei haeddiant, gan ystyried ymddygiad pobl ifanc, eu hamgylchiadau byw, eu haeddfedrwydd, unrhyw anableddau dysgu difrifol ac unrhyw ffactorau eraill a allai olygu eu bod yn arbennig o agored i niwed.
- 67** Fel arfer, dylech rannu gwybodaeth ynghylch gweithgarwch rhywiol sy'n ymwneud â phlant dan 13 oed, y mae'r gyfraith yn eu hystyried fel unigolion na allant roi eu caniatâd.²⁸ Dylech drafod penderfyniad i beidio datgelu gyda meddyg penodol neu ddynodedig ar gyfer amddiffyn plant, a chofnodi'ch penderfyniad a'ch rhesymau dros wneud y penderfyniad hwn.

- 68** Fel arfer, dylech rannu gwybodaeth ynghylch gweithgarwch rhywiol sy'n cyfateb â cham-drin neu sy'n peri niwed difrifol, ac sy'n cynnwys unrhyw blentyn neu berson ifanc, gan gynnwys gweithgarwch sy'n ymwneud â'r canlynol:
- a** person ifanc nad ydynt yn ddigon aeddfed i ddeall neu i roi eu caniatâd
 - b** gwahaniaethau mawr rhwng oedran, aeddfedrwydd neu bw^er rhwng partneriaid rhywiol
 - c** partner rhywiol person ifanc yn meddu ar swydd gyfrifol
 - d** grym neu fygythiad grym, pwysau emosynol neu seicolegol, llwgrwobrwyo neu dâl, naill ai i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol neu i'w chadw fel cyfrinach
 - e** cyffuriau neu alcohol a ddefnyddir i ddylanwadu ar berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol pan na fyddent yn gwneud hynny fel arall
 - f** person y mae'r heddlu neu'r asiantaethau amddiffyn plant yn ymwybodol ohonynt oherwydd eu bod wedi cael perthnasoedd gyda phlant neu bobl ifanc a oedd yn cynnwys cam-drin.²⁹
- 69** Efallai na fyddwch yn gallu barnu bod perthynas yn un sy'n cynnwys cam-drin heb wybod y manylion ynghylch partner rhywiol person ifanc, na fydd y person ifanc yn dymuno'u datgelu efallai. Os ydych yn pryderu bod perthynas yn cynnwys cam-drin, dylech gydbwyso mewn ffordd ofalus y manteision o wybod manylion personol partner rhywiol, yn erbyn y colli ymddiriedaeth a allai ddigwydd trwy ofyn am wybodaeth o'r fath neu ei rhannu.

Atal cenhedlu, erthylu a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs)

- 70** 70 Gallwch ddarparu cyngor a thriniaeth sy'n ymwneud ag atal cenhedlu, erthylu³⁰ ac STIs heb hysbysu neu sicrhau caniatâd rhieni, i bobl ifanc dan 16 oed, ar yr amod:
- a** eu bod yn deall pob agwedd ar y cyngor a'i oblygiadau
 - b** na allwch berswadio'r person ifanc i ddweud wrth eu rhieni neu ganiata'u i chi ddweud wrthynt
 - c** o ran atal cenhedlu ac STIs, mae'r person ifanc yn debygol iawn o gael rhyw os byddant yn cael triniaeth o'r fath neu os na fyddant yn cael triniaeth o'r fath
 - d** mae eu hiechyd corfforol neu feddyliol yn debygol o ddioddef oni bai eu bod yn cael cyngor neu driniaeth o'r fath, ac
 - e** mae er budd pennaf y person ifanc i gael y cyngor a'r driniaeth heb hysbysu neu sicrhau caniatâd rhieni.³¹
- 71** Dylech gadw manylion ymgynghoriadau yn gyfrinachol hyd yn oed os byddwch yn penderfynu peidio rhoi cyngor neu driniaeth (er enghraifft, os na fydd eich claf yn deall eich cyngor neu oblygiadau triniaeth), ac eithrio yn yr amgylchiadau arbennig a amlinellir ym mharagraffau 46 i 52 a pharagraffau 64 i 69.

Gwrthwynebiadau cydwybodol

- 72** Os bydd cyflawni gweithdrefn benodol neu roi cyngor yn ei chylch yn gwrthdaro gyda'ch credoau crefyddol neu foesol, ac y gallai'r gwrthdaro hwn effeithio ar y driniaeth neu'r cyngor y byddwch yn ei roi, rhaid i chi esbonio hyn i'r claf, gan ddweud wrthynt bod ganddynt yr hawl i weld meddyg arall. Dylech sicrhau bod gwybodaeth ynghylch gwasanaethau amgen ar gael i bob claf. Efallai y bydd plant a phobl ifanc yn arbennig yn cael anhawster wrth wneud trefniadau amgen eu hunain, felly rhaid i chi sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud i gydweithiwr arall sy'n meddu ar y gymhwystra addas, ymgymryd â'ch rôl cyn gynted ag y bo modd.³²

Addasrwydd i weithio gyda phlant a phobl ifanc

- 73** Nid oedolion bach yw plant. Mae gofal clinigol da i blant yn dibynnu ar staff clinigol a hyfforddwyd yn arbennig, ynghyd ag offer, cyfleusterau ac amgylchedd sy'n briodol i anghenion plant. Os bydd gennych gleifion sy'n blant ac yn bobl ifanc, dylech sicrhau eich bod yn meddu ar yr hyfforddiant a'r profiad priodol ym maes gofal clinigol i blant yn eich maes arbenigol. Dylech gymryd camau i sicrhau, pryd bynnag y bo modd, eich bod chi ac aelodau'ch tim yn gallu manteisio ar y safle, yr offer, a'r adnoddau eraill sy'n angenrheidiol i ddarparu gofal da. Os oes gennych oedolion fel cleifion hefyd, dylech archwilio'r gofal yr ydych yn ei ddarparu i blant a phobl ifanc ar wahân.³³
- 74** Os ydych yn gyfrifol am recriwtio neu gyflogi pobl, neu os ydych fel arall yn rheoli'r sawl sy'n gallu gweithio gyda phlant neu bobl ifanc yn eich gofal, dylech sicrhau bod eu haddasrwydd yn cael ei archwilio. Mae NHS Employers (rhan o Gonffederasiwn GIG) yn rhoi cyngor ynghylch arfer cyflogaeth da, gan gynnwys trefniadau cyn ac ar ôl cyflogaeth, y Swyddfa Cofnodion Troseddol, hysbysiad rhybudd, y cynllun fetio a gwahardd ac archwiliadau eraill.
- 75** Dylech ddilyn arweiniad CMC ynghylch mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion os bydd gennych bryderon bod plant neu bobl ifanc mewn perygl o ddioddef niwed, neu y gallent fod mewn perygl o ddioddef niwed, oherwydd ymddygiad, perfformiad neu iechyd cydweithiwr.

Cwynion

- 76** Dylech ystyried cwynion plant a phobl ifanc o ddifrif bob amser. Dylech eu helpu i gwyno os yw eu hawliau neu eu buddiannau wedi cael eu gwrthod neu eu cam-drin, neu os byddant yn anfodlon gyda'r gofal y maent wedi'i gael neu oherwydd y gwrthodwyd gofal iddynt.

Presgripsiynu meddyginiaethau

- 77** Os byddwch yn presgripsiynu meddyginiaethau i blant, dylech fod yn gyfarwydd gyda'r arweiniad presennol a gyhoeddir yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain i Blant.

Am wybodaeth bellach trowch at arweiniad CMC ynghylch arfer da wrth bresgripsiynu meddyginiaethau.

Atodiad 1

Pwy yw plant a phobl ifanc?

Mae plant a phobl ifanc yn grŵp amrywiol y mae ganddynt nifer o wahanol anghenion. Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc o'u genedigaeth nes iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed. Fel arfer, bydd cyfeiriadau at 'blant' yn golygu plant iau nad ydynt yn meddu ar yr aeddfedrwydd a'r dealltwriaeth i wneud penderfyniadau pwysig drostynt eu hunain. Cyfeirir at blant hyn neu blant mwy profiadol sy'n gallu gwneud y penderfyniadau hyn, fel 'pobl ifanc'. Pan fyddant yn 16 oed, barnir bod pobl ifanc yn meddu ar y galluedd i wneud penderfyniadau am eu gofal eu hunain.

Atodiad 2

Rhieni a chyfrifoldeb rhieni

Fel arfer, mae cyfeiriadau a wneir at 'rieni' yn yr arweiniad hwn yn golygu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu'r person ifanc dan sylw.

Mae cyfrifoldeb rhiant yn golygu'r hawliau a'r cyfrifoldebau sydd gan rieni yn ôl y gyfraith dros eu plentyn, gan gynnwys yr hawl i roi eu caniatâd iddynt gael triniaeth feddygol, nes byddant yn 18 oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac 16 oed yn yr Alban.

Mae gan famau a thadau priod gyfrifoldeb rhiant. Mae gan dadau nad ydynt yn briod gyfrifoldeb rhiant hefyd os ganwyd eu plant er 15 Ebrill 2002 yng Ngogledd Iwerddon, er 1 Rhagfyr 2003 yng Nghymru a Lloegr ac er 4 Mai 2006 yn yr Alban, os cânt eu henwi ar dystysgrif geni y plentyn.

Os na fyddant yn cael eu henwi ar dystysgrif geni y plentyn, ni fydd gan dadau nad ydynt yn briod, ac y ganwyd eu plant cyn y dyddiadau hyn, gyfrifoldeb rhiant yn awtomatig. Gallant sicrhau cyfrifoldeb rhiant trwy gyfrwng Cytundeb Cyfrifoldeb Rhiant gyda mam y plentyn neu thrwy gael Gorchymyn Cyfrifoldeb Rhiant gan y llysoedd. Gall llys-rieni sy'n briod a phartneriaid sifil cofrestredig sicrhau cyfrifoldeb rhiant yn yr un ffyrdd.

Ni fydd rhieni yn colli cyfrifoldeb rhiant os byddant yn ysgaru. Os bydd plentyn yn cael ei roi yng ngofal yr awdurdod lleol dan orchymyn gofal, bydd rhieni yn rhannu cyfrifoldeb rhiant gyda'r awdurdod lleol. Os bydd y plentyn yn cael gofal dan drefniant gwirfoddol, ni fydd gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant. Bydd rhieni yn colli cyfrifoldeb rhiant os bydd plentyn yn cael ei fabwysiadu. Gellir cyfyngu ar gyfrifoldeb rhiant trwy gyfrwng gorchymyn llys.

Mae gan rieni maeth gyfrifoldeb rhiant, yn ogystal â'r rhai a benodir yn warcheidwad testamentaidd plentyn, yn warcheidwad arbennig neu'r rhai y rhoddir gorchymyn preswyllo iddynt. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb rhiant pan fo'r plentyn yn destun gorchymyn gofal.

Efallai y bydd angen i chi gael cyngor cyfreithiol pan geir unrhyw amheuaeth ynghylch y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Yn yr Alban, yr unig gyfrifoldeb rhiant sy'n parhau nes bydd y person ifanc yn 18 oed yw rhoi arweiniad i'r plentyn (gweler *a.1(1)(b)(ii)* ac *a.1(2)(b) Children (Scotland) Act 1995*). Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at hawliau a chyfrifoldebau rhieni (PRR); mae unrhyw gyfeiriad at gyfrifoldebau rhieni yn yr arweiniad hwn yn golygu PRR yn yr Alban.

Gall pobl nad oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant, ond sy'n gofalu am blentyn, wneud yr hyn sy'n rhesymol dan holl amgylchiadau'r achos er mwyn diogelu neu hyrwyddo lles y plentyn. Gallai hyn gynnwys llys-rieni, teidiau/tad-cuod a neiniau/mam-guod a gwarchodwyr plant. Gallwch ddibynnu ar eu caniatâd nhw os ydynt wedi cael eu hawdurdodi gan y rhieni. Ond dylech sicrhau bod eu penderfyniadau yn cyd-fynd â phenderfyniadau'r rhieni, yn enwedig ar gyfer penderfyniadau pwysig neu ddadleuol.

Ffynonellau gwybodaeth ac arweiniad eraill

Best Practice Guidance for Doctors and other Health Professionals on the provision of Advice and Treatment to Young People under 16 on Contraception, Sexual and Reproductive Health (Adran Iechyd, 2004)

Child protection companion (Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, 2006)

Y Fframwaith Asesu Cyffredin i blant a phobl ifanc: Canllawiau i Ymarferwyr a Rheolwyr (y ddau gan Lywodraeth EM, 2006)

Common Core of Skills and Knowledge for the Children's Workforce (Cyngor Datblygu'r Gweithlu Plant, 2010)

Consent, Rights and Choices in Health Care for Children and Young People (golygydd gan Gymdeithas Feddygol Prydain, 2000)

Declaration of Helsinki (Cymdeithas Feddygol y Byd, 1964, fel y'i diwygiwyd)

Delivering a Healthy Future – An Action Framework for Children and Young People's Health in Scotland (Gweithrediaeth yr Alban, 2007)

Doctors' responsibilities in child protection cases (Cymdeithas Feddygol Prydain, 2004)

Getting it Right for Every Child (Gweithrediaeth yr Alban, 2006)

Guidelines for the ethical conduct of medical research involving children (Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant: Ethics Advisory Committee yn Archives of Disease in Childhood, Chwefror 2000, Cyf 82, Rhif 2, tud177–182)

Information sharing: Guidance for practitioners and managers (Llywodraeth EM, 2008)

The law and ethics of male circumcision – Guidance for doctors (Cymdeithas Feddygol Prydain, 2006)

Medical Research Involving Children (Cyngor Ymchwil Feddygol, 2004)

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth (Adran Iechyd, 2004)

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005)

NHS Confidentiality Code of Practice (Adran Iechyd, 2003)

Safeguarding Children and Young People: Roles and Competences for Health Care Staff (Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, 2006)

Safeguarding Children: Working Together under the Children Act 2004 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)

Seeking Consent: Working with Children (Adran Iechyd, 2001)

Seeking Consent: Working with Children (Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd, 2003)

Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Y Cenedloedd Unedig, 1989)

What to do if you're worried a child is being abused (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2006)

Working together to safeguard children (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2010)

You're Welcome quality criteria: making health services young people friendly (Adran Iechyd, 2007)

Deddfwriaeth a chyfraith achosion

Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000

Age of Legal Capacity (Scotland) Act 1991

Age of Majority Act 1969, Adran 4 (Gogledd Iwerddon)

Children (Scotland) Act 1995

Children Act (Northern Ireland) Order 1995

Deddfau Plant 1989 a 2004

Deddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969 Gillick v West Norfolk and Wisbech AHA [1986] AC 112

Houston (applicant) [1996] 32 BMLR 93

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004

R (on the application of Sue Axon) v Secretary of State for Health & Anor [2006] EWHC 37 (Admin), [2006] 1 FCR 175

Re A (A Minor) (Wardship: Medical Treatment) [1993] 1 FLR 386

Re C (Welfare of Child: Immunisation) [2003] EWCA Civ 1148, [2003] 2 FLR 1095

Re J (specific issue order: child's religious upbringing and circumcision) [2000] 1 FLR 571

Re P (medical treatment: best interests) [2004] 2 FLR 1117

Re R (a minor) [1991] 4 All ER 177

Re W (A Minor) (Medical Treatment: Court's Jurisdiction) [1993] Fam 64, [1992] 4 All ER 627 CA

Cyngor Sir De Morgannwg v W & B [1993] 1 FLR 574

Cysylltiadau defnyddiol

Grwpiau ymbarél elusennol

Children in Northern Ireland – sefydliad ymbarél rhanbarthol ar gyfer y sector gwirfoddol i blant yng Ngogledd Iwerddon

Children in Scotland – asiantaeth genedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion gwirfoddol, statudol a phroffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd yn yr Alban

Plant yng Nghymru – sefydliad ymbarél cenedlaethol i blant yng Nghymru

Y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Plant – corff ymbarél ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn Lloegr a Gogledd Iwerddon

Gwybodaeth ac adnoddau ymarferol i blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol

Mae Pob Plentyn yn Bwysig – gwybodaeth ac arweiniad gan Lywodraeth y DU ynghylch ei hymagwedd tuag at les plant a phobl ifanc

Mae NHS inform wedi cyhoeddi arweiniad penodol ar gyfer y rhai dan 16 oed ynghylch caniatâd a chyfrinachedd ar gyfer Adran Iechyd Gweithrediaeth yr Alban

Brook – darparwr cenedlaethol yn y sector gwirfoddol sy'n cynnig gwasanaethau a chyngor cyfrinachol ac am ddim ynghylch iechyd rhywiol i bobl ifanc; mae'n cyhoeddi arweiniad, taflenni a phosteri ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, plant a phobl ifanc ynghylch amrywiaeth o bynciau

Connexions – gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc 13–19 oed

Adnoddau cyfreithiol

Children First for Health – adnodd iechyd ac ysbyty ar y we sy'n darparu gwybodaeth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran

The Children's Legal Centre – elusen genedlaethol annibynnol sy'n ymwneud â'r gyfraith a pholisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc

Scottish Child Law Centre – mae'n hyrwyddo gwybodaeth am gyfraith yr Alban, a'r defnydd ohoni, yn ogystal â hawliau plant er lles plant a phobl ifanc yn yr Alban

Children's Law Centre (Northern Ireland) – mae'n datblygu gwasanaeth cyngor cynhwysfawr a hygyrch ynghylch hawliau plant a'r gyfraith

Comisiynwyr Plant

Penodwyd Comisiynwyr Plant yn y bedair wlad yn y DU. Maent yn gofalu am fuddiannau ac yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc. Mae eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol yn amrywio, ond maent yn ffynonellau gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth pwysig i blant a phobl ifanc.

- Comisiynydd Plant Lloegr (a materion nas datganolwyd ar draws y DU)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban
- Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon

Ôl-nodion

- 1 Efallai y bydd cyrff amddiffyn meddygol a chyfreithwyr cyflogwyr yn gallu rhoi cyngor cyfreithiol pan geir ansicrwydd ynghylch sut y byddai'r gyfraith yn ystyried penderfyniad penodol. Mae'r gyfraith achosion sy'n ymwneud â rhoi triniaeth i blant newydd-anedig (babanod ar unrhyw adeg yn ystod y 28 diwrnod cyntaf ar ôl eu genedigaeth) sy'n sâl iawn, yn arbennig o gymhleth. Dylech ystyried arweiniad CMC ynghylch triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes a chael cyngor cyfreithiol arbenigol yn ôl yr angen yn y maes hwn.
- 2 Gweler *Re A (A minor) (Wardship: Medical Treatment)* [1993] 1 FLR 386.
- 3 Gweler arweiniad *CMC ynghylch cynnal terfynau*.
- 4 Mae deddfwriaeth iechyd meddyliol yn darparu sail gyfreithiol arall dros drin plant a phobl ifanc y mae ganddynt anhwylderau iechyd meddwl.
- 5 Gweler *Assessment of Mental Capacity: A Practical Guide for Doctors and Lawyers* (BMA; Cymdeithas y Cyfreithwyr, 2010).
- 6 *Deddf Diwygio Cyfraith Teulu 1969; Age of Majority Act 1969 (Gogledd Iwerddon); Age of Legal Capacity (Scotland) Act 1991; Deddf Galluedd Meddyliol 2005; Gillick v West Norfolk and Wisbech AHA* [1986] AC 112.
- 7 Gweler *Re C (Welfare of Child: Immunisation)* [2003] EWCA Civ 1148, [2003] 2 FLR 1095 a pharagraffau 34–35 am arweiniad ynghylch gweithdrefnau a gyflawnir am resymau crefyddol, diwylliannol, cymdeithasol neu emosïynol yn bennaf.

-
- 8 Pan na fydd person sydd â chyfrifoldeb rhiant ar gael, er enghraifft. Gweler a.5 *Deddf Galluedd Meddyliol 2005* a Phenodau 5 a 12 Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Os bydd rhieni ar gael, ond os na fyddant yn gallu cytuno neu os na fernir eu bod yn gweithredu er lles y person ifanc, dylid ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch gwneud cais i'r llys i ddatrys anghydfodau nad oes modd eu datrys mewn ffordd anffurfiol. Os bydd gan y person ifanc anhwylder meddyliol (os nad oes ganddynt alluedd neu beidio hefyd), dylech ystyried darpariaethau'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl.
- 9 Gweler *Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000*.
- 10 Gweler *Houston (applicant)* [1996] 32 BMLR 93.
- 11 Gweler *Re R (a minor)* [1991] 4 All ER 177.
- 12 *Mae Deddf Plant 1989, Children Act (Northern Ireland) Order 1995 a Children Act (Scotland) 1995* yn rhoi hawliau statudol i bobl ifanc cymwys i wrthod asesiadau neu archwiliadau meddygol neu seiciatrig sy'n cael eu gorchymyn gan y llys neu gan wrandawriad plant at ddibenion gorchymyn gofal interim, gorchymyn goruchwylio, gorchymyn amddiffyn plant neu orchymyn amddiffyn brys neu, yn yr Alban, gofyniad gorchymyn goruchwylio, asesu, amddiffyn neu fan diogel. Gall awdurdodaeth ymlynol yr Uchel Lys ddiystyru penderfyniad person ifanc i wrthod yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (gweler *Cyngor Sir De Morgannwg v W & B* [1993] 1 FLR 574). Nid yw'r sefyllfa mor eglur yn yr Alban; gweler *Age of Legal Capacity (Scotland) Act 1991*.
- 13 Gweler *Re W (A Minor) (Medical Treatment: Court's Jurisdiction)* [1993] Fam 64, [1992] 4 All ER 627 CA.

- 14 Gweler *Re P (Medical Treatment: Best Interests)* [2004] 2 FLR 1117.
- 15 Gweler ein harweiniad ynghylch credoau personol ac arfer meddygol; The law and ethics of male circumcision – *Guidance for doctors* (BMA 2006); *Religious circumcision of male children: standards of care* (Cymdeithas Llawfeddygon Pediatrig Prydain (BAPS) 2001), a Statement on Male Circumcision (BAPS, Coleg Nyrso Brenhinol, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr a Choleg Brenhinol yr Anesthetyddion, 2001). Mae anffurfio organau cenhedlu benywod (y cyfeirir ato weithiau fel enwaedu benywod) yn drosedd ddifrifol ac yn fater amddiffyn plant, os yw'n cael ei gyflawni yn y DU neu mewn gwlad dramor. Er mis Hydref 2015, mae gan feddygon yng Nghymru a Lloegr ddyletswydd gyfreithiol i adrodd am achosion hysbys o anffurfio organau cenhedlu benywod ymhlith merched a menywod ifanc dan 18 oed i'r heddlu. Mae Llywodraeth EM wedi cyhoeddi dwy ddogfen arweiniad ynghylch anffurfio organau cenhedlu benywod: *Multi agency practice guidelines: female genital mutilation*, y mae ar gael trwy droi at www.gov.uk/government/publications/female-genital-mutilationguidelines a **Mandatory reporting of female genital mutilation: procedural information**, y mae ar gael trwy droi at www.gov.uk/government/publications/mandatory-reporting-of-female-genital-mutilationprocedural-information.
- 16 Gweler y diffiniad yn arweiniad CMC ynghylch gwaith ymchwil. Nid yw'r arweiniad hwn yn berthnasol i archwilio clinigol nad yw'n cynnwys unrhyw astudio arbrofol.
- 17 Gweler *Datganiad Helsinki Cymdeithas Feddygol y Byd a Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl* (Treialon Clinigol) 2004, sy'n mynnu caniatâd rhieni i gyd-fynd â chytundeb pobl ifanc cymwys dan 16 oed hyd yn oed i gymryd rhan mewn treialon.

-
- 18 Gweler *Medical Research Involving Children* (Cyngor Ymchwil Feddygol, 2004).
- 19 Gweler *Guidelines for the ethical conduct of medical research involving children* (Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant: Ethics Advisory Committee yn Archives of Disease in Childhood, Chwefror 2000, Cyf 82, Rhif 2, tud 177–182).
- 20 Gweler arweiniad CMC ynghylch cyfrinachedd.
- 21 Gweler hefyd *Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd) a *Rhannu Gwybodaeth: Canllaw i ymarferwyr a rheolwyr* (Llywodraeth EM, 2008) ar gyfer arweiniad llywodraethol i Loegr.
- 22 Mae *Cod Ymarfer GIG ar Gyfrinachedd* yn esbonio 'nad yw'r diffiniad ar gyfer trosedd ddirifol yn hollol eglur. Gallai llofruddiaeth, dynladdiad, trais, brad, herwgipio, cam-drin plant neu achosion eraill lle y mae unigolion wedi dioddef niwed dirifol, olygu bod angen torri amodau cyfrinachedd.
- 'Yn ogystal, bydd niwed dirifol i ddiogelwch y wladwriaeth neu i drefn gyhoeddus a throseddau sy'n ymwneud ag elw neu golled ariannol sylweddol yn perthyn i'r categori hwn. Mewn cyferbyniad, ni fyddai lladrata, twyll neu ddirifod i eiddo lle y mae'r golled neu'r ddirifod yn llai sylweddol, yn golygu bod angen torri amodau cyfrinachedd yn gyffredinol'.
- Mae'n mynd ymlaen i esbonio y gallai troseddau llai dirifol, megis 'twyll presgripsiwn cymharol ddibwys' fod yn gysylltiedig gyda niwed dirifol, megis cam-drin cyffuriau, a allai gyfiawnhau datgelu.

- 23 Gweler arweiniad CMC ynghylch cyfrinachedd, sy'n nodi rhai elfennau allweddol o'r gyfraith sy'n ymwneud â chyfrinachedd.
- 24 Fel arfer, ni ddylid datgelu gwybodaeth sy'n cael ei sicrhau o ganlyniad i archwiliadau neu ymchwiliadau y rhoddodd plant neu bobl ifanc eu caniatâd iddynt gan ddisgwyl cyfrinachedd, ychwaith. Gweler a.5(3) *Gorchymyn Diogelu Data (Addasu Mynediad Pwnc) (Iechyd) 2000*. Yn ogystal, gweler paragraffau 46–52 ynghylch datgelu gwybodaeth heb sicrhau caniatâd.
- 25 Gweler *Diogelu Plant a Phobl Ifanc: Rolau a Chymwyseddau i Staff Gofal Iechyd* (RCPCH, 2006).
- 26 Efallai na fydd claf mewn perygl mwyach ac fe allent ofyn i chi beidio rhannu gwybodaeth ynghylch achosion o gam-drin yn y gorffennol, er enghraifft. Efallai y byddai modd cyfiawnhau datgelu o hyd os bydd y sawl sy'n cam-drin yn parhau i beri risg i blant eraill.
- 27 *Best Practice Guidance for Doctors and other Health Professionals on the provision of Advice and Treatment to Young People under 16 on Contraception, Sexual and Reproductive Health* (Adran Iechyd, 2004).
- 28 Gweler *Deddf Troseddau Rhywiol 2003, Sexual Offences* (Northern Ireland) Order 2008 a *Sexual Offences* (Scotland) Act 2009.
- 29 Mae *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant* (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2010) yn cynnwys cyngor a rhestr o ystyriaethau (yn 5.29) i'w hystyried wrth asesu risg mewn achosion rhyw tan oed. Yn ogystal, gweler *Working Together: Q&A on sexual activity of under 16s and under 13s* (Adran Addysg a Sgiliau, 2006), *Children and Families: Safer from Sexual Crime – The Sexual Offences Act 2003* (Y Swyddfa Gartref, 2004) a *Confidentiality Toolkit* (Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, 2000).

-
- 30 Nid yw *Deddf Erthyliadau 1967* yn ymestyn i Ogledd Iwerddon ac mae'r sail ar gyfer cyflawni erthyliad yn fwy cyfyngol nag y mae yng ngweddill y DU.
- 31 *Gillick v West Norfolk and Wisbech AHA* [1986] AC 112. Gweler hefyd *R (on the application of Sue Axon) v The Secretary of State for Health a Anor* [2006] EWHC 37 (Admin), [2006] 1 FCR 175 and *Best Practice Guidance for Doctors and other Health Professionals on the provision of Advice and Treatment to Young People under 16 on Contraception, Sexual and Reproductive Health* (Adran Iechyd, 2004).
- 32 Gweler *Best Practice Guidance for Doctors and other Health Professionals on the provision of Advice and Treatment to Young People under 16 on Contraception, Sexual and Reproductive Health* (Adran Iechyd, 2004).
- 33 *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth* (Adran Iechyd, 2004); *Children's surgery – a first class service* (Royal College of Surgeons of England, 2000); *Common Core Skills and Knowledge for the Children's Workforce* (Adran Cyngor Datblygu'r Gweithlu Plant, 2010).

Nodiadau

Enillwyr y gystadleuaeth


Y rhain oedd y cynigion buddugol o'r bedair wlad yn y DU ar gyfer ein cystadleuaeth creu poster i blant a phobl ifanc. Cynlluniodd Paul McAleenan, enillydd y brif wobwr, glawr y llyfryn hefyd.




Paul McAleenan, Gogledd Iwerddon



Rhiannon Macleod, Yr Alban



Danielle Baines, Cymru



Inderjit Mehroke, Lloegr

E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: www.gmc-uk.org

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **deialwch y rhifau cyntaf 18001** yna **0161 923 6602** er mwyn defnyddio'r gwasanaeth Trosglwyddo Testun

Ymunwch â'r sgwrs

 [@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)

 facebook.com/gmcuk

 linkd.in/gmcuk

 youtube.com/gmcuktv

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn iaith neu ffurf arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602**, neu anfonwch e-bost atom, at publications@gmc-uk.org.

© 2007 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei bod yn cael ei hatgynhychu'n gywir, ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

ISBN: 978-0-901458-62-9

Mae CMC yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278)
a'r Alban (SC037750)

Cod: GMC/0-18-W/1115

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol